**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mehefin 2016**

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Dod â Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio er mwyn i'r aelodau i roi sylwadau arno, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Awdurdod.

## Y Cefndir

2 O 2010/11 ymlaen, bu'n ofynnol i bob Awdurdod Llywodraeth Leol lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol. Mae hyn yn disodli'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn y Datganiad o Gyfrifon.

## Gwybodaeth

3 Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus bob blwyddyn ynghylch y graddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol ei hun. Mae'n cynnwys esboniad ynglŷn â'r modd y mae'r Awdurdod wedi monitro effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn y flwyddyn honno, ynghyd ag unrhyw newidiadau sydd yn yr arfaeth yn y cyfnod sydd i ddod.

4 Caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei lunio gan y Pennaeth Cyllid dan gyfarwyddyd y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Clerc. Yn dilyn argymhellion yr archwilwyr, mae'r datganiad yn cymryd ystyriaeth o'r gwelliannau a nodwyd gan reolwyr adrannau eraill o fewn y Gwasanaeth.

5 Gwiriodd y Pennaeth Cyllid gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod, a gymeradwywyd yn 2011, a rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd ynghlwm.

**Argymhelliad**

6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/16.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/2016

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cafodd y Datganiad hwn ei lunio yn unol â chanllawiau a gynhyrchwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef y fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Governance'.

## 2 Cwmpas Cyfrifoldeb

2.1 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith ac i'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif cywir amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Hefyd, mae dyletswydd ar yr Awdurdod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni, gan dalu sylw i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

2.2 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau cywir yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei faterion er mwyn ei gwneud yn haws i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

2.3 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethau corfforaethol sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE, sef 'Delivering Good Governance in Local Government'. Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut y mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r cod, a hefyd wedi ateb gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2011.

## 3 Diben y Fframwaith Llywodraethu

3.1 Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ar gyfer bod yn atebol i'r gymuned, trafod â hi, a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro'r modd y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried p'un a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol a gwelliannau parhaus.

3.2 Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw, a'i nod yw rheoli risg i fod ar lefel resymol. Ni all gael gwared ar bob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion ac felly ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, heb fod yn absoliwt, o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd â'r nod o adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

3.3 Rhoddwyd y fframwaith llywodraethu yn ei le ar gyfer yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

## 4 Y Fframwaith Llywodraethu

4.1 Mae'r datganiad hwn yn disgrifio prif elfennau Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod a'n hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod. Mae'r sicrwydd llywodraethu sydd yn y datganiad hwn wedi eu strwythuro o gwmpas pob un o'r 6 egwyddor llywodraethu sydd yn y Fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government'.

4.2 Mae pob un o'r egwyddorion hyn yn rhan bwysig o drefniadau Cod Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod. Trwy gymhwyso'r egwyddorion, gallwn ddangos ein bod yn cyflwyno'r gwasanaethau i'n dinasyddion a'n cymunedau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, tryloywder, effeithiolrwydd, didwylledd a chynhwysiant.

**Egwyddor 1**
**Canolbwyntio ar ddiben yr Awdurdod, y deilliannau i'r gymuned, a chreu a gwireddu gweledigaeth ar gyfer y fro.**

5.1 Mae'r **Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2015/16** yn nodi gweledigaeth, datganiad cenhadaeth a gwerthoedd yr Awdurdod. Paratoir y cynllun yn unol â dyletswyddau penodol sy'n deillio o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-11. Ymdrinnir â'r tri diben gwahanol yn y cynllun:

- Darparu gwybodaeth ynglŷn â'r Awdurdod a'r Gwasanaeth, a'r cyd-destun y maent yn gweithredu o'i fewn;
- Cofnodi blaenoriaethau uchaf yr Awdurdod ac olrhain cynnydd tuag at nodau penodol;
- Cofnodi hanesyddol o berfformiad dros dair blynedd ariannol.

5.2 Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015, yn amlinellu sut y bydd yr Awdurdod yn gwneud gwelliannau ac yn lleihau risgiau ar gyfer 2015/16 a 2016/17, yn ogystal â gosod ei amcanion gwella ei hun.

5.3 Yn unol ag Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'r Awdurdod yn mynd ati bob blwyddyn i gyhoeddi asesiad o'i berfformiad drwy '**Sut wnaethom ni?**' Mae'r asesiad hwn yn dangos sut y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella a gwneud cynnydd mewn perthynas â'r amcanion y mae wedi eu gosod iddo'i hun ar gyfer y flwyddyn. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o'i waith cydweithio, a'i berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad penodol cenedlaethol a lleol, a mesurau llwyddiant.

5.4 Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Prif Swyddogion yn gyfrifol am sicrhau bod blaenoriaethau'r Awdurdod yn cael eu cyflawni. Mae perfformiad o'i gymharu â thargedau allweddol yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy'r fframwaith **rheoli perfformiad** ac yn cael ei adrodd i'r Aelodau bob chwarter yn ogystal ag ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

5.5 Mae gan yr Awdurdod drefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer **rheolaeth ariannol** effeithiol drwy weithdrefnau cyfrifyddiaeth a'r Rheoliadau Ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau sefydledig ar gyfer cynllunio'r gyllideb, a'r rheini'n ddarostyngedig i asesiadau risg, ac adroddiadau rheolaidd i'r Aelodau gan gymharu'r refeniw gwirioneddol a'r gwariant cyfalaf gyda'r cyllidebau blynyddol. Y Trysorydd sy'n

gyfrifol am sicrhau bod materion ariannol yr Awdurdod yn cael eu gweinyddu'n briodol, a hynny fel y bo'n ofynnol gan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae ffin glir o ran cyfrifoldebau rhwng swyddogaeth cyfrifyddiaeth y rheolwyr, a wneir yn fewnol, a'r swyddogaeth cyfrifyddiaeth ariannol, a wneir trwy Gytundeb Lefel Awdurdod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae trefniadau'r Awdurdod ar **Reoli'r Trysorlys** yn dilyn arferion proffesiynol, ac maent yn agored i'w hadolygu'n rheolaidd ac yn cynnwys adroddiadau a gyflwynir i'r Aelodau bob chwarter.

5.6 Ar ddiwedd bob blwyddyn, a hynny yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdod yn cyhoeddi ei **Ddatganiad Blynyddol o Gyfrifon** i roi gwybodaeth glir am ei sefyllfa ariannol a'i berfformiad yn ystod y flwyddyn.

5.7 Wedi ei gynnwys yn y datganiadau ariannol, mae **Barn Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru**. Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, dywedodd barn yr archwiliad fod y datganiadau'n darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn.

5.8 Hefyd, caiff crynodeb clir a hawdd ei ddarllen o berfformiad yr Awdurdod ei lunio, ac mae hwnnw ar gael ar wefan yr Awdurdod fel bod y cyhoedd yn gallu ei weld.

5.9 Mae'r cyhoedd yn gallu cael gwybodaeth yn hawdd ar y wefan ynglŷn â ffyrdd i wneud cwyn am y Gwasanaeth. Mae gan yr Awdurdod bolisi wedi hen ennill ei blwyf ar **Reoli Cwynion**, ac mae hwnnw'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli a monitro cwynion o ffynonellau allanol.

5.10 Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar egwyddorion a phrosesau i sicrhau bod ei amcanion, ei flaenoriaethau a'i werthoedd yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu wrth weithio mewn partneriaeth. Cyhoeddwyd **strategaeth partneriaeth** ac mae ar gael ar wefan yr Awdurdod. Darperir atebolrwydd eglur a darpariaethau ar gyfer cyfathrebu ymhob cytundeb partneriaeth.

5.11 Mae'r Awdurdod wedi gwneud gwelliannau mewn sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad ym maes **ymgysylltu â'r sector gwirfoddol.** Mae'r gwelliannau'n cynnwys:

- Ffurfioli darpariaeth protocolau rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau partneriaethol;

- Caiff gwaith mewn partneriaeth ei lywodraethu gan gytundebau, protocolau a memoranda cyd-ddealltwriaeth sy'n berthnasol i'r math o waith neu'r berthynas dan sylw.

5.12 Bob blwyddyn, mae Awdurdod Tân a Achub Gogledd Cymru yn adrodd ynghylch y cynnydd a wnaethom wrth gyflawni ein hamcanion gwella a hyrwyddo'r blaenoriaethau a nodir yn **ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol** fel rhan o broses barhaus. Gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i bartneriaid, Coleg Cambria, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Prifysgol Glyndŵr, Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, byddwn yn gweithio i wneud y canlynol:

- Dileu camwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio;
- Hybu cyfle cyfartal; a
- Hybu cyd-berthnasoedd da rhwng gwahanol grwpiau o bobl a chymunedau.

**Egwyddor 2**
**Bydd yr Aelodau a'r Swyddogion yn cydweithio i gyflawni diben cyffredin, gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.**

6.1 Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys 28 o aelodau etholedig o'r chwe awdurdod unedol sy'n dod o fewn ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub yn unol â Gorchymyn Cyfuno Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru 1995.

Mae rôl yr Awdurdod, sydd i'w weld ar y wefan, wedi ei ddiffinio yn ei **Reolau Sefydlog:**

- cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn benodol Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Deddf Rhagofalon Tân 1971, y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ym mis Hydref 2006, a Gorchymyn Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995;
- cytuno ar y cynlluniau blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniadau ar gyfer y cynghorau cyfansoddol;
- monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfraniadau atodol.

Cynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod llawn bedair gwaith y flwyddyn ym Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr, a hynny i ystyried pynciau megis y cynlluniau gwasanaeth, materion busnes arferol, cyllidebau a gwariant, a gwneud neu gymeradwyo penderfyniadau ynglŷn â pholisïau fel y bo'n briodol. Gellir galw cyfarfodydd arbennig ar unrhyw adeg os oes angen trafod materion brys. Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod yn agored i'r cyhoedd.

Etholir y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn y cyfarfod blynyddol a gynhelir ym Mehefin.

Mae gweithrediad cywir yr Awdurdod yn cael ei ategu gan ei Glerc a'i Drysorydd. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion trafodion yr Awdurdod ar gael.

6.2 **Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r Disgrifiadau o Rôl a Manylion y Person sydd gan WLGA / CLILC ar gyfer Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub.** Mae'r disgrifiadau rôl yn rhestru cyfrifoldebau a swyddogaethau rôl Aelod etholedig, ac mae manylion y person yn seiliedig ar gyfres o ddisgrifiadau a gofynion cyffredinol rolau Aelodau a grewyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA).

6.3 Mae'r Awdurdod wedi sefydlu **Protocol ar Gysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion** i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion. Mae'n rhoi trefn ar yr arferion da sy'n bodoli eisoes o ran y cysylltiadau rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion.

6.4 Mae **Cynllun Dirprwyo** i'r Prif Swyddog Tân yn ei le, ac mae'n nodi'r pwerau sydd wedi eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân i wneud penderfyniadau ar ran yr Awdurdod.

6.5 Caiff y gwaith o **lunio polisïau a gwneud penderfyniadau** ei hwyluso drwy'r **Grŵp Gweithredol.** Mae'r grŵp strategol hwn yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, ac mae'n cyfarfod bob chwe wythnos i adolygu eitemau sefydlog, gan gynnwys rheoli perfformiad, rheoli risg ac arian, a datblygu polisïau a gweithdrefnau mewnol.

6.6 Mae gan y **Panel Gweithredol** rôl amrywiol i ymdrin â phynciau, megis edrych yn fanwl ar gynlluniau gwella a chynlluniau ariannol, ymdrin â rhai materion archwilio ac â materion polisi a chyfansoddiadol pan fo angen. Fel arfer, mae'n ymdrin ag ymatebion i bapurau ymgynghori a datblygiadau eraill ym maes polisi, ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ei brif bolisïau, gan gynnwys y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella. Y Panel sydd yn arfer ymdrin ag uwch benodiadau drwy sefydlu is-bwyllgor arbennig i'r diben.

6.7 Mae'r **Pwyllgor Archwilio** yn weithredol ers y flwyddyn drefol 2009/10. Mae gan y Pwyllgor bedair prif rôl o lywodraethu archwilio a chraffu, archwilio a chraffu rheolaeth y gyllideb ac adnoddau, archwilio a chraffu'r rheolaeth o risg a sicrwydd ac archwilio a chraffu perfformiad. Mae'n cynnwys yr holl aelodau sydd ddim ar y panel gweithredol ac yn cyfarfod unwaith bob chwarter. Penodir y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd o wahanol awdurdodau cyfansoddol er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o gymunedau Gogledd Cymru.

6.8 Sefydlwyd y **Pwyllgor Safonau** yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000, a gosodwyd ei Gylch Gwaith yn 2003. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys ystyried cwynion yn erbyn aelodau'r Awdurdod sy'n cael eu cyfeirio ato gan yr Ombwdsmon a chaniatáu gollyngiadau. Mae'r pwyllgor yn cynnwys 6 aelod, a phedwar ohonynt yn annibynnol. Ni all y cynrychiolwyr sydd o blith yr Awdurdod Tân ac Achub fod yn rhai sydd â swydd ar yr Awdurdod. Mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn dod o blith yr aelodau annibynnol. Daw'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd o blith yr aelodau annibynnol. Yn gadarnhaol, ni fu unrhyw atgyfeiriadau am ymddygiad unrhyw Aelod i'r Pwyllgor Safonau/Ombwdsmon yn y blynyddoedd diwethaf.

6.9 Sefydlwyd **Bwrdd Pensiwn Lleol** yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013; mae'r bwrdd yn cynnwys tri o aelodau sy'n gynghorwyr a thri o aelodau sy'n cynrychioli'r gweithwyr. Mae gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ddyletswyddau penodol, sef cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (ATA) i gydymffurfio â'r Ddeddf a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân, deddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun ac unrhyw ofynion a bennir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**Egwyddor 3**
**Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod, ac amlygu gwerthoedd llywodraethu da trwy ymddwyn yn ôl safonau uchel.**

7.1 Mae polisïau yn eu lle i sicrhau bod yr Awdurdod yn sefydlu fframweithiau llywodraethu moesegol, sy'n cynnwys:

- Codau ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau, a adolygir, a ddiweddarir ac a brofir yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio;
- Polisi i gynnal proses ddisgyblu i ymdrin ag unrhyw achos o dorri'r cod ymddygiad ymhlith Swyddogion;

- Polisi chwythu'r chwiban, a hwnnw wedi ei rannu'n eang yn yr Awdurdod ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd;
- Cofrestrau o fuddiannau personol a busnes;
- Polisi y cytunwyd arno, a gweithdrefnau corfforaethol cysylltiedig, ar gyfer sicrhau bod modd gwneud cwynion am wasanaethau ac ymchwilio iddynt, ac ar gyfer sicrhau bod modd dysgu unrhyw wersi.

7.2 Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub yw'r '**Swyddog Monitro'** dynodedig, a hynny yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig. Ar ôl ymgynghori'n briodol, bydd y swyddog hwn yn adrodd i'r Awdurdod ynghylch unrhyw gynigion, penderfyniadau neu hepgoriadau a allai fod yn anghyfreithlon. Mae trefniadau sefydledig yr Awdurdod **yn erbyn twyll a llygredd** yn arf ataliol, yn ei gwneud yn haws i ganfod twyll a llygredd, ac yn nodi llwybr clir ar gyfer ymchwilio. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer trechu twyll ariannol.

7.3 Cafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfraith cyflogaeth, chwythu'r chwiban, Deddf Llwgrwobrwyo 2010, Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth ei roi i'r Grŵp Gweithredol ar 28ain Chwefror 2015 a'i raeadru drwy Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod 2015/16**.**

7.4 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gasglu, prosesu a diogelu data personol i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998, ac yn benodol wyth egwyddor arweiniol y Ddeddf honno. Mae'r Awdurdod yn sicrhau hyn drwy ddefnyddio ei bolisïau Diogelu Data a Chadw Data, a gyhoeddwyd gyntaf yng Ngorffennaf 2010. Mae diogelu gwybodaeth yn eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod o Grŵp Llywio Gwybodaeth yr Awdurdod.

7.5 Mae gan yr Awdurdod berthynas wrthrychol a phroffesiynol gyda'i **archwilwyr allanol**. Ym mis Medi 2015, cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG yr Adroddiad 'Archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifyddu' i'r Pwyllgor Archwilio, ac roedd yn nodi eu bwriad i roi Adroddiad diamod yr Archwilydd ar y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig am 2014/15. Roedd yr adroddiad manwl yn cadarnhau bod datganiadau cyfrifyddu'r Awdurdod yn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2015 fel y ceir tystiolaeth ohoni yn Llythyr Blynyddol Rheolwr y Berthynas. Mae hwn i'w gael ar wefan yr Awdurdod.

## Egwyddor 4
## Gwneud penderfyniadau gwybodus a thryloyw sy'n agored i graffu effeithiol a rheoli risg

8.1 Mae'r Awdurdod yn prynu ei swyddogaeth **Archwilio Mewnol** gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'i Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Ariannol a'r Trysorlys. Mae'r Gwasanaeth yn annibynnol o ran cynllunio a gweithredu, ac mae'n cydymffurfio â Chod Ymarfer Archwilio Mewnol CIPFA 2006, a'i nod yw rhoi sicrwydd bod gan yr Awdurdod systemau digonol o reolaeth fewnol a gwneud argymhellion ynghylch ffyrdd i wella'r rhain pan y teimla fod angen. Mae gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio fynediad uniongyrchol at y Prif Swyddog Tân, rheolwyr ar bob lefel a'r aelodau etholedig. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu ar sail asesiad o anghenion, sef dull seiliedig ar risg i benderfynu ar ddechrau pob blwyddyn beth yw anghenion yr Awdurdod ac sy'n cael ei nodi mewn cynlluniau gweithredol a gyflwynir bob blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio i'w cymeradwyo.

8.2 Mae'r **Pwyllgor Archwilio** yn monitro pa mor effeithiol yw'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rheolaeth risg gorfforaethol yn yr Awdurdod, yn monitro gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol, ac yn monitro'r berthynas rhwng yr archwilwyr a'r staff a'r ymatebion i argymhellion archwiliadau ac arolygiadau. Mae'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor i graffu ar yr holl adroddiadau ariannol a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ynghylch eu canfyddiadau. Yn y blynyddoedd diweddar mae wedi cael cyfrifoldeb dirprwyedig am gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon blynyddol a'i adroddiadau cysylltiedig, gan gynnwys yr adroddiad hwn yn ogystal â Datganiad o Sicrwydd Blynyddol yr Archwiliad Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol. Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys pob aelod nad yw'n aelod o'r panel gweithredol, ac maent yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Penodir y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd o wahanol awdurdodau cyfansoddol, a hynny er mwyn cael cynrychiolaeth o gymunedau Gogledd Cymru.

8.3 Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi polisi **Rheoli Parhad Busnes** (RhPB). Mae pob adran yn yr Awdurdod wedi datblygu cynlluniau parhad busnes ar gyfer y swyddogaethau unigol. Ar ôl dadansoddi risg, mae'r cynlluniau'n ymdrin â gwahanol sefyllfaoedd, a'r mesurau i'w dilyn i sicrhau cydnerthedd rhag tarfiadau posibl, gan gynnwys sefyllfaoedd megis anghydfod diwydiannol. Mae'r cynlluniau wedi diffinio a dyrannu cyfrifoldebau'n glir am Reoli Parhad Busnes yn yr Awdurdod, gan roi'r un pwyslais ar reoli parhad busnes yn gorfforaethol ac yn weithredol, a hynny er mwyn sicrhau nad oes yr un maes wedi ei anghofio a bod y cynlluniau adfer yn rhai cadarn. Mae'r Awdurdod yn parhau i ddatblygu rhaglen o brofi ac ymarfer er mwyn gwirio bod y cynlluniau presennol yn ddilys.

8.4 Datblygwyd **Polisi Rheoli Risgiau Strategol** a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod yn Mehefin 2015.

8.5 Mae gan yr Awdurdod **Gynllun Cyhoeddiadau**, ac mae ar gael ar y wefan, ynghyd â chofnodion holl gyfarfodydd yr Awdurdod.

8.6 Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth **Rhyddid Gwybodaeth** drwy ei bolisi Rhyddid Gwybodaeth a gyhoeddwyd yn Chwefror 2011. Fe wnaeth Archwiliad Mewnol o weithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth yr Awdurdod gadarnhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd statudol ac yn ymateb o fewn yr amserlenni penodedig.

8.7 Mae gan yr Awdurdod **Bolisi Chwythu'r Chwiban**, er mwyn i Aelodau, staff a rhanddeiliaid allanol allu codi pryderon am ymddygiad unrhyw un sy'n gysylltiedig â gwaith yr Awdurdod.

8.8 Mae Swyddog Monitro'r Awdurdod yn cadw **Cofrestr o Fuddiannau Personol a Busnes yr Aelodau,** yn unol â'r Cod Ymddygiad.

8.9 Cafodd yr **adran Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth** ei sefydlu ym mis Medi 2015. Mae'r adran yn gyfrifol am welliannau o ran cyflwyno gwasanaethau ac Iechyd a Diogelwch; mae'r dyletswyddau'n cynnwys Archwiliadau o Berfformiad Gorsafoedd, Archwiliadau Iechyd a Diogelwch; Cydlynu'r gwaith Rheoli Parhad Busnes, Iechyd a Diogelwch, Cwynion, Ymchwilio i Ddamweiniau, Sicrwydd Gweithredol, Monitro Perfformiad Gweithredol, yn ogystal â chydlynu gwelliannau i ddiogelwch a rhoi cymorth i ymchwiliadau i faterion disgyblu cymhleth.

**Egwyddor 5**
**Meithrin gallu'r aelodau a'r swyddogion i weithio'n effeithiol**

9.1 Mae gweithdrefnau **recriwtio'r** Awdurdod yn darparu cydraddoldeb o ran cyfleoedd cyflogaeth. Mae **strwythur cyflogau y sicrheir ei ansawdd** yn ateb gofynion Cytundeb Statws Sengl 1997. Mae pob aelod o'r staff yn cael contract, swydd-ddisgrifiad ac adolygiad blynyddol o ddatblygiad perfformiad.

9.2 Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd gweithlu gwybodus, medrus a brwdfrydig er mwyn cyflwyno'i wasanaethau'n llwyddiannus. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddatblygu awyrgylch sy'n hyrwyddo datblygiad parhaus, gwelliant a dyfeisgarwch. Mae pob gweithiwr yn cael **Adolygiad Datblygiad Unigol** bob blwyddyn. Mae'r broses hon nawr yn system arfarnu, a gofnodir ar y llwyfan PDR Pro.

9.3 Mae'r Awdurdod yn dal Siarter Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer **Cefnogi a Datblygu Aelodau**, ac felly mae ganddo weithdrefnau ar gyfer asesu anghenion hyfforddi'r Aelodau. Nod y Siarter yw sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei wasanaethu gan Aelodau effeithiol, sy'n gweithio i gael gwell llywodraethu corfforaethol, democratiaeth leol a gwasanaethau lleol.

9.4 Mae'r **Fframwaith Gweithwyr Tân Proffesiynol** wedi cael ei ddatblygu i ddarparu fframwaith er mwyn i ddiffoddwyr tân gweithredol a phenaethiaid gael medrusrwydd fel eu bod yn gallu defnyddio eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn ddiogel mewn amgylchedd gweithredol. Mae'n diffinio medrusrwydd gweithredol, ac yna'n gweld sut y gellir defnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i asesu medrusrwydd, a thrwy hynny leihau risg. Mae'r fframwaith wedi ei gynllunio i ddisodli IPDS.

9.5 Mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda'r ddau Wasanaeth arall yng Nghymru i ddatblygu **llwybrau datblygu gyrfa** ar gyfer pob rôl yn y sefydliad; mae hyn yn galluogi unigolion i ganfod gofynion gwahanol lwybrau gyrfa. Gellir defnyddio'r llwybrau hefyd i gynllunio ar gyfer olyniaeth.

9.6 Drwy ei **Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** a'r **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal mewn cyflogaeth ymhob rhan o'r sefydliad. Ei bolisi yw sicrhau bod pob ymgeisydd a gweithiwr yn cael ei drin yn deg a gofalus, a hybu awyrgylch gweithio i'r staff sy'n rhydd o aflonyddu a fictimeiddio.

9.7 Mae **Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod 2010-2013,** a estynnwyd i 2015 gan ddilyn cyngor y Comisiynydd, yn cynnwys ymrwymiadau'r Awdurdod tuag at y Gymraeg mewn perthynas â'i weithlu. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'n ofynnol i'r staff gydymffurfio â'r gofynion polisi sydd yn y Cynllun.

9.8 Mae'r staff yn cael gwybod am faterion sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth. Mae gwasanaeth gwybodaeth wythnosol yn rhoi gwybod i'r staff am bethau megis Diweddariad y Prif Swyddog, materion yn ymddangos ar y cyfryngau, a digwyddiadau pwysig eraill sy'n mynd ymlaen yn y Gwasanaeth. Y Fflam yw'r cylchlythyr i'r staff, ac mae'n cael ei ddosbarthu bob yn ail fis ac ar gael ar y fewnrwyd.

.

**Egwyddor 6**
**Trafod gyda phobl leol a rhanddeiliaid eraill i ofalu bod atebolrwydd cyhoeddus cadarn**

10.1 Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei fod angen cyfathrebu gyda'r bobl sy'n byw yn y rhanbarth, yn gweithio yma ac yn dod i ymweld, er mwyn eu haddysgu a'u hysbysu am ei waith atal tanau, ei waith amddiffyn a'i waith ymateb. Yr **Adran Cyfathrebu Corfforaethol** sydd â'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am gydlynu'r gwaith cyfathrebu mewnol ac allanol, y cysylltiadau â'r cyfryngau, polisi'r Gymraeg a chyfieithu. Mae cael cyhoeddusrwydd cadarnhaol ar y cyfryngau yn gwella enw da'r Gwasanaeth, ac yn hyrwyddo'r nod o wneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.

10.2 Mae'r Awdurdod wedi sefydlu **Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2014-19, sef *Rhoi Pobl yn Gyntaf***, sy'n rhestru'r egwyddorion a'r dull i'w ddilyn er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y gwaith o gyfathrebu gyda rhanddeiliaid pwysig. Hefyd, mae'r Awdurdod yn rhan o **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cymru gyfan: *Ein Cyfeiriad Strategol***, a luniwyd gan y Grŵp Cyfathrebu Cymru gyfan. Ei bwrpas yw cynorthwyo'r tri ATA i fabwysiadu dull cyffredin a generig i ymgysylltu â'r cyhoedd ac i ymgynghori.

10.3 Hefyd, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnig dewis iaith gwirioneddol i'r cyhoedd. Drwy ei **Gynllun Iaith Gymraeg** mae'n cydnabod bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, ac mai arfer dda yw cynnig hyn, nid consesiwn.

10.4 Ymgynghorir â rhanddeiliaid yr Awdurdod ynghylch penderfynu ar y blaenoriaethau sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth sydd yn y **Cynllun Cyfunol Gwella a Lleihau Risg**. Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ym Mawrth 2015 yn amlinellu sut y bydd yr Awdurdod yn gwneud gwelliannau a lleihau risg, yn ogystal â gosod amcanion gwella ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Fe wnaeth yr Awdurdod gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i wahodd y cyhoedd i ddweud beth fyddent yn ei ffafrio o blith tri opsiwn posibl ar gyfer cyllido. Roedd 81% o blaid cynyddu cyllideb yr Awdurdod yn flynyddol hyd at 2019/20, ond gan sicrhau na fyddai hyn yn uwch na swm yn cyfateb i £1 yn ychwanegol i bawb sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

10.5 Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ac Uwch Swyddogion eraill yn cynnal cyfarfodydd negodi ffurfiol yn rheolaidd gydag aelodau o gyrff cynrychioliadol yr Awdurdod i ymgynghori ar bolisïau allweddol ac ar newidiadau i'r Gwasanaeth.

## 11 Adolygu Effeithiolrwydd

11.1 Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Yn sail i'r adolygiad o effeithiolrwydd mae gwaith y Grŵp Gweithredol ac uwch swyddogion eraill o fewn yr Awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol yr Archwiliad Mewnol, a hefyd y sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygol eraill ac adolygiadau eraill a gynhelir.

11.2 Mae datganiad o sicrwydd wedi ei drafod a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r datganiad o sicrwydd yn ymdrin â'r holl egwyddorion sydd yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod. Mae'r datganiad o sicrwydd yn datgelu nad oes unrhyw feysydd gwan yn nhrefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod; roedd y trefniadau ymhob achos yn ddigonol o leiaf, ac yn y mwyafrif o feysydd roeddent yn dda.

11.3 Wrth gynnal ac adolygu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:-

i) mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r systemau a'r rheolaethau ariannol, a hynny er mwyn darparu sicrwydd i'r Awdurdod drwy ei Bwyllgor Archwilio;

ii) Mae Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG yn ystyried bod yr amgylcheddau rheoli cyffredinol yn rhai cadarn, a bod systemau cadarn o reolaeth ariannol a threfniadau rheoli ariannol ar waith;

iii) swyddogaeth Archwilio Mewnol, y mae ei waith yn ystyried y risgiau a ganfuwyd drwy archwiliadau rheolaidd o'r systemau mawr, niferoedd staff a phrosiectau pwysig yn unol â'r cynllun archwilio mewnol blynyddol, ac sy'n cynnwys gwaith dilynol i sicrhau bod y prif swyddogion yn gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt;

iv) yr asesiad blynyddol o'r gwaith Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol yr Awdurdod, a gasglodd bod yr Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA ar Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006;

v) gwaith pwyllgorau'r Awdurdod;

vi) barn ac argymhellion archwilwyr allanol yr Awdurdod ac asiantaethau arolygol ac adolygol eraill;

vii) monitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y Cynllun Gwella a chynlluniau'r Awdurdod a thargedau allweddol, ac adrodd yn ei gylch i aelodau'r Awdurdod;

## 12 Argymhellion ar gyfer Gwella

12.1 O ran y 'materion rheolaeth sylweddol' sydd yn y Datganiad Rheolaeth Fewnol am y flwyddyn ariannol flaenorol (2014/15), roedd y cynnydd yn 2015/16 fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Sefydlu Strategaeth Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol | Sefydlu **Strategaeth Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol** er mwyn egluro beth mae'r Awdurdod yn ei gredu yw ei faes dylanwad ar ddatblygu cynaliadwy ac i osod y prif egwyddorion, cynigion a'r camau gweithredu angenrheidiol, yn ogystal â datgan ei ymrwymiad i leihau effeithiau amgylcheddol ei weithgareddau a'i weithrediadau. | Wrthi'n cael ei ddatblygu |

| | | |
|---|---|---|
| Gwella gwybodaeth am y safonau uchel o ymddygiad a ddisgwylir. | Rhaeadru hyfforddiant a hwylusir yn allanol ynglŷn â chwythu'r chwiban, y ddeddf llwgrwobrwyo, diogelu data a Rhyddid Gwybodaeth ymhob rhan o GTAGC | Wedi'i gwblhau |
| | Cyhoeddi datganiad gwrth-lwgrwobrwyo ar wefan ATAGC a'r fewnrwyd | Wedi'i gwblhau |
| | Cyhoeddi'r gofrestr lletygarwch ar wefan ATAGC | Wedi'i gwblhau |
| Gwella cydymffurfiaeth â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio | Diweddaru polisi'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, a threfnu hyfforddiant ar gyfer swyddogion awdurdodi. | Wedi'i gwblhau |
| | Trefnu i osod arwyddion ymwybyddiaeth o gamerâu teledu cylch cyfyngu pan fo'r rheini'n cael eu defnyddio | Wedi'i gwblhau |
| Gwella Diogelu Data | Datblygu a gweithredu polisi torri data. | Wedi'i gwblhau |

12.2 Mae gan yr Awdurdod reolaethau a llywodraethiant da, ond nid yw'n hunanfodlon. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, yn ogystal ag archwiliad diweddar a gynhaliwyd ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod, wedi canfod meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau pellach.

12.3 **Cynllun Gweithredu y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/16 – Camau Gweithredu newydd ar gyfer 2016/17:**

| | | |
|---|---|---|
| Gwell cydweithio rhwng partneriaid yn y Gwasanaethau Brys. | Lleihau'r risg o anaf neu farwolaeth oherwydd tân drwy wella'r cydweithio rhwng partneriaid yn y Gwasanaethau Brys.<br><br>Rhannu llwyfannau cyffredin o ran technoleg gwybodaeth (Frequentis LifeX i ddechrau) er mwyn gallu cyfnewid mwy o wybodaeth yn amserol i reoli adnoddau'n fwy medrus a darparu ymateb mwy effeithiol i gymunedau Gogledd Cymru. | Pennaeth yr Ystafell Reoli |
| Rheoli Rhaglenni | Gwella'r gwaith rheoli prosiectau er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth yn fwy effeithiol. | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol |

| | | |
|---|---|---|
| WASPI – creu cofrestr ganolog o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth (ISPs) a Chytundebau Datgelu Data (DDAs). | WASPI – creu cofrestr ganolog o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth (ISPs) a Chytundebau Datgelu Data (DDAs). | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – Sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. | Dehongli'r canllawiau a gwneud argymhellion. | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol |
| Gwella gwybodaeth, ymddygiad ac ymarweddiad o fewn y sefydliad o ran Iechyd, Diogelwch a Lles. | Datblygu a chyhoeddi dogfennau cyfarwyddyd a chynllun iechyd a diogelwch ar y fewnrwyd. | Pennaeth Safonau Proffesiynol |

## 13 Crynodeb o Sicrwydd

13.1 Llywodraethu da yw sylfaen y gwaith o ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion yr holl randdeiliaid, ac mae'n hanfodol dangos bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Yn seiliedig ar yr adolygiad, yr asesiad a'r gwaith monitro parhaus a wnaed yn ystod 2015/16, rydym o'r farn fod trefniadau llywodraethu da yn eu lle, bod y systemau allweddol yn gweithredu'n iawn ac nad oes unrhyw dystiolaeth o wendidau sylfaenol mewn rheolaeth. Fodd bynnag, ni all yr un system reolaeth ddarparu sicrwydd absoliwt yn erbyn camddatgan na cholled. Yn seiliedig ar y gwahanol sicrwydd a roddwyd, bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol fod trefniadau llywodraethu corfforaethol boddhaol yn eu lle a'u bod yn gweithio'n effeithiol.

13.2 Yn y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod i wella rhagor ar ein trefniadau llywodraethu. Rydym wedi ein bodloni y bydd y camau hyn yn ymdrin â'r angen i gael y gwelliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

**Llofnodwyd**
**(Prif Swyddog Tân)** **2016**

**Llofnodwyd:**
**(Cadeirydd ATAGC)** **2016**